

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU

2018- 2019



Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



CYNNWYS

	Tudalen
Beth yw Craffu?	3
Craffu ar Waith	3
Sut mae Craffu yn gweithio yn Sir Ddinbych?	3 - 4
Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu	4 - 5
Craffu yn ystod 2018/19	6
Pwyllgor Craffu Perfformiad	7 - 8
Pwyllgor Craffu Partneriaethau	9 - 11
Pwyllgor Craffu Cymunedau	12 - 14
Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych	15
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen	16
Ymchwiliad Craffu i Ddân Mynydd Llantysilio	17 - 19
Gwaith ychwanegol	19
Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru	20 - 22
Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Graffu?	23 – 24
Ffurflen gais Craffu	25

Beth yw Craffu?

Mae Craffu yn rhan allweddol o strwythur gwleidyddol y Cyngor. Mae llawer o benderfyniadau pwysig y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Cabinet, sef grŵp o gynghorwyr y mae'r Cyngor Sir wedi rhoi ei bwerau iddynt er mwyn dod i benderfyniadau ynghylch polisiau a gweithdrefnau ar ei ran.

Mae'r term Saesneg 'scrutiny' yn tarddu o'r gair Lladin 'scrutinium/scrutari' sy'n golygu 'chwilio'. Yng nghyd-destun llywodraeth leol, rôl Craffu yw archwilio polisiau a phenderfyniadau ac ymchwilio iddynt i asesu a fyddai'n bosibl eu gwella neu eu cryfhau i ddarparu gwell gwasanaethau i breswylwyr Sir Ddinbych a phobl sy'n ymweld â'r sir. Cyfeirir at y swyddogaeth graffu yn aml fel 'ffrind beirniadol' y Cyngor, a'i nod yw darparu beirniadaeth adeiladol er mwyn ceisio gwell gwasanaethau'n barhaus, sicrhau penderfyniadau gwell a chael gwell canlyniadau.

Ni all pwyllgorau Craffu wneud penderfyniadau, ond maent yn gallu dylanwadu ar wleidyddiaeth, adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a Swyddogion, gwneud argymhellion, ac archwilio pob math o bynciau sy'n effeithio ar breswylwyr a busnesau lleol a phobl sy'n ymweld â'r sir.

Craffu ar Waith

Dylai Craffu weithio mewn ffordd ddiuedd bob amser. Ni ddylai gwleidyddiaeth bleidiol ddylanwadu arno, dylai ganolbwyntio ar wella bywydau preswylwyr a sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer y sir.

Yn ogystal â'u rôl weithgar i ddatblygu polisiau ac adolygu perfformiad, mae gan Bwyllgorau Craffu gyfrifoldeb i ddal y Cabinet ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif am y penderfyniadau maent yn eu gwneud.




Os yw Pwyllgor Craffu yn credu y dylid edrych yn fwy manwl ar fater cyn dod i benderfyniad, gall ofyn am adolygiad o dan y weithdrefn "Galw i Mewn" a fydd yn galluogi Pwyllgorau Craffu i lunio cynigion eraill.

Sut mae craffu yn gweithio yn Sir Ddinbych?

Mae craffu yn gweithredu fel 'ffrind beirniadol' i arweinyddiaeth y Cyngor, yn gyrru gwelliannau nid yn unig i wasanaethau a gyflenwir gan y Cyngor ei hun, ond i wasanaethau a gyflenwir mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal drwy alluogi pryderon y cyhoedd i gael eu clywed.

Mae gwaith craffu'r Cyngor yn cael ei gyflawni gan dri phwyllgor Craffu thematig, trawsbynciol, sy'n cyfarfod bob tua 7 wythnos ac sy'n cynnwys 11 aelod o bob plaid/grŵp gwleidyddol ar y Cyngor.

Y tri phwyllgor yn Sir Ddinbych yw:

-  Pwllgor Craffu Cymunedau
-  Pwyllgor Craffu Partneriaethau
-  Pwyllgor Craffu Perfformiad

Wrth roi sylw i faterion addysgol mae cynrychiolwyr a benodir gan yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig, ynghyd â chynrychiolwyr â etholir gan riant-lywodraethwyr, hefyd yn gwasanaethu ar bwyllgorau. Wrth ymdrin â materion addysgol mae gan y cynrychiolwyr hyn hawliau pleidleisio llawn.

Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn gwasanaethu ar Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r Cyngor ynghyd â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol (Pwyllgor Archwilio'r Cyngor) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Grŵp yn gweithredu fel grŵp cydlynol ar gyfer gwaith y pwyllgorau. Mae ceisiadau am eitemau i'w hystyried gan bwyllgor craffu, boed y rheini gan gynghorwyr sir, swyddogion y Cyngor, preswylwyr neu'r cyhoedd, yn cael eu harchwilio gan y Grŵp hwn i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Craffu, neu a fyddent yn elwa ar gael eu hystyried gan fforwm neu grŵp arall. Mae'r siart llif ar y dudalen nesaf yn dangos y meini prawf a'r broses ar gyfer pennu a yw pwnc yn un addas ar gyfer craffu.

Yn ystod 2018/19 cafodd cyfanswm o 33 o geisiadau am eitemau i gael eu craffu eu hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. O'r 33 cais hwn:

- ❖ cafodd 23 eu cyflwyno gan gynghorwyr sir
- ❖ 10 gan swyddogion
- ❖ 0 gan breswylwyr /y cyhoedd (er na chafodd unrhyw geisiadau eu cyflwyno'n uniongyrchol gan y cyhoedd, roedd nifer o'r ceisiadau a gafodd eu cyflwyno gan gynghorwyr sir yn ymateb i bryderon a godwyd gan eu hetholwyr)

Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi sicrhau bod rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu yn gytbwys ac nad yw'r pynciau yn cael eu dyblygu. Mae'r Grŵp hefyd yn cefnogi a chryfhau swyddogaeth graffu'r Cyngor drwy nodi arfer gorau a rhoi cymorth i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r arferion craffu.

Ystyried addasrwydd testun ar gyfer craffu

Ffurflen gynnig/gais wedi'i derbyn

(bydd y rhesymau dros y cais yn cael eu hystyried yn ofalus)



Ydy'r mater dan sylw yn cyd-fynd â'r prawf PAPER?

- Budd y cyhoedd – a yw'r mater yn destun pryder i breswylwyr?
- Y gallu i gael effaith – a all y broses Craffu ddylanwadu ar bethau a'u newid?
- Perfformiad – ydy hwn yn faes neu'n wasanaeth sy'n tanberfformio?
- Maint – ydy hwn yn effeithio ar nifer mawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol eang?
- Dyblygu – a oes unrhyw un arall yn edrych ar y mater hwn?

NAC
YDY

YDY

Nid oes angen unrhyw weithredu pellach gan y pwyllgor craffu. Ei gyfeirio at rywle arall neu ofyn am adroddiad gwybodaeth?

- Penderfynu pa ganlyniad(au) a ddymunir
- Penderfynu beth yw cwrpas a maint y gwaith craffu sydd ei angen a'r dull mwyaf addas o'i gyflawni (h.y. adroddiad pwyllgor, ymchwiliad grŵp gorchwyl a gorffen, neu aelod cyswllt, ac ati)
- Os dewisir y llwybr gorchwyl a gorffen, pennu'r amserlen ar gyfer unrhyw ymchwiliad, pwy fydd yn gysylltiedig, gofynion ymchwil, cyngor arbenigol a'r tystion fydd eu hangen, trefniadau adrodd ac ati.

Gwaith Craffu yn ystod 2018/19

Fel rhan o'u gwaith yn ystod y flwyddyn 2018/19 mae tri Phwyllgor Craffu'r Cyngor wedi canolbwyntio ar nifer o bynciau gyda'r nod o gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Y Blaenoriaethau Corfforaethol yw:

- 🏠 **Tai:** sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n bodloni eu hanghenion
- 🏠 **Cymunedau wedi eu cysylltu:** sicrhau bod cymunedau wedi eu cysylltu a bod ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau trafnidiaeth da
- 🏠 **Cymunedau Cydnerth:** sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i feithrin annibyniaeth a chydnerthedd
- 🏠 **Amgylchedd:** sicrhau amgylchedd deniadol sydd wedi'i warchod sy'n cefnogi llesiant a ffyniant economaidd; a
- 🏠 **Phobl Ifanc:** creu sir lle bydd pobl ifanc yn dymuno byw a gweithio a bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Trwy fabwysiadu'r dull hwn, amcan Craffu yw gwella gwasanaethau i breswylwyr ac ansawdd eu bywydau bob dydd.

Mae gwasanaethau Cyngor Sir Ddinbych yn cyffwrdd â bywydau holl breswylwyr y sir, yn hen ac ifanc, a dyma pam mae'r pwyllgorau craffu wedi edrych ar berfformiad y Cyngor i gyflenwi gwasanaethu yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, wrth i fodolau cyflenwi gwasanaeth esblygu i ateb anghenion sy'n newid, mae'r broses Graffu wedi bod yn ystyried ffyrdd newydd o gyflenwi gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae trosolwg byr o'r gwaith a gyflawnwyd gan bob pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi'i grynhai ar y tudalennau canlynol.

Pwyllgor Craffu Perfformiad



Cyng. Huw Ll Jones (**Cadeirydd**)



Cyng. Hugh Irving (**Is-gadeirydd**)

Mae gan y Pwyllgor hwn rôl allweddol i fonitro perfformiad y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau. Felly, mae'n adolygu cynnydd y Cyngor yn rheolaidd o ran cyflawni ei **Gynllun Corfforaethol**, a'i berfformiad wrth ymdrin â chwynion o dan drefn gwyno'r awdurdod, **Eich Llais**.

Ddwywaith y flwyddyn mae'n adolygu **Cofrestr Risg** y Cyngor i sicrhau bod gan yr Awdurdod y mesurau priodol yn eu lle i leihau effaith unrhyw newidiadau mawr o ran deddfwriaeth, polisiau cenedlaethol neu ddigwyddiadau na ellir eu rhagweld, ar y Cyngor a phreswylwyr y sir.

Gan gydnabod y pwysau sy'n deillio o'r galw cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol a'r adnoddau ariannol prin sydd ar gael i ateb y galw hwnnw, mae'r Pwyllgor wedi archwilio **Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol** ar berfformiad y Gwasanaeth wrth gyflenwi'r gwasanaethau hynny yn ystod 2017/18 a'i gynlluniau i ateb gofynion deddfwriaeth newydd a chyflenwi gwasanaethau yn ystod 2018/19. Mae hefyd wedi adolygu perfformiad **Cefndy Healthcare** – cwmni sy'n darparu cyfleoedd gwaith gwerthfawr i bobl agored i niwed ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd – wrth iddo gyflawni ei waith yn ystod 2017/18 ynghyd ag archwilio ei gynllun busnes ar gyfer 2018/19.

Er bod nifer o awdurdodau lleol wedi cwtochi ar nifer eu llyfrgelloedd, neu wedi eu trosglwyddo i ddwylo grwpiau cymunedol, mae Sir Ddinbych wedi dewis eu cadw ar agor a'u rhedeg ei hun. Gan gydnabod bod llyfrgelloedd heddiw yn cynnig llawer mwy na llyfrau yn unig, mae'r Cyngor yn y broses o'u datblygu yn ganolbwyntiau/hybiau cymunedol, lle gall pobl fynd i ddefnyddio sawl gwasanaeth a mynychu digwyddiadau. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd o ran cyrraedd **Safonau Llyfrgelloedd** Llywodraeth Cymru a chynnydd y Cyngor wrth eu datblygu yn **Ganolbwyntiau Cymunedol**.

Mae ansawdd darpariaeth addysgol y Cyngor i sicrhau bod pob disgybl yn gwireddu ei botensial ac yn cael ei baratoi ar gyfer byd gwaith hefyd wedi bod yn rhan o raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac mae'r Pwyllgor wedi archwilio **Canlyniadau Arholiadau Dros Dro a Chanlyniadau wedi'u Dilysu**. Yn sgil craffu ar y

canlyniadau hyn cododd y Pwyllgor bryderon gyda Chymwysterau Cymru ynglŷn â'r cynnydd sylweddol yn nhrothwy gradd 'C' ar gyfer yr arholiad Saesneg a gynhaliwyd yn ystod yr haf 2018 ac effeithiau andwyol hyn ar ddewisiadau addysgol a gyrfaedd myfyrwyr. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod y garfan benodol hon o fyfyrwyr o dan anfantais gan nad oedd Cymwysterau Cymru wedi rhoi digon o rybudd o'r penderfyniad i godi'r trothwy yn sylweddol.

Mewn ymateb i'r pryderon cynyddol yn ymwneud â'r amgylchedd a chynhesu bydeang, mae'r Pwyllgor wedi archwilio **Strategaeth Ddrafft Rheoli Fflyd** y Cyngor a'r cynigion i ddatblygu **Strategaeth Rheoli Priffyrdd** gynaliadwy.

I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Perfformiad, ei agendau ac adroddiadau, ewch i wefan y Cyngor:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=269&LLL=1>

Pwyllgor Craffu Partneriaethau



Cyng. Jeanette Chamberlain-Jones (**Cadeirydd**) Cyng. Emrys Wynne (**Is-gadeirydd**)

Mae cyflenwi gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon ar y cyd â gwahanol bartneriaid y sector cyhoeddus yn nodwedd allweddol o waith y Pwyllgor hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl bartneriaid y sector cyhoeddus weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau didor i breswylwyr er mwyn gwella ansawdd eu bywydau. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl agored i niwed. Mae angen i wasanaethau o'r fath ategu ei gilydd ac felly mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cyflenwi mewn ffordd integredig lle bo'n bosibl i sicrhau nad oes unrhyw fwch yn y ddarpariaeth gwasanaeth pan ddaw un math o wasanaeth i ben ac wrth aros i wasanaeth arall ddechrau.

Gyda'r nod o sicrhau bod y pobl fwyaf agored i niwed yn y sir yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi mae'r Pwyllgor wedi archwilio canfyddiadau'r **Ymchwiliad Annibynnol i Ofal a Thriniaeth ar Ward Tawel Fan** ac wedi trafod y canfyddiadau hyn a chynigion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer dyfodol gofal dementia gyda Phrif Weithredwr ac uwch swyddogion y Bwrdd. Mae hefyd wedi archwilio **Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Ddiogelu Oedolion yn Sir Ddinbych 2017/18** ynghyd â'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ddigartref yn y sir fel rhan o'i ystyriaeth o'r **Cynllun Gweithredu i Atal Digartrefedd a Chynllun Comisiynu Drafft 2019/22**.

Mae cynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i drafod pryderon y Cyngor a phreswylwyr lleol mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd mewn gwahanol rannau o'r sir. Ymhlith y materion a gafodd eu hystyried yn fanwl roedd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i gyflenwi gwasanaethau yn **Ysbyty Dinbych**, yn ogystal â gwasanaethau gofal iechyd yn ardaloedd **Rhuthun** a **Chorwen**. Mae wedi parhau i fonitro cynnydd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei gynlluniau i agor cyfleuster gofal iechyd ac ysbyty newydd yn y Rhyl ar gyfer ardal **Gogledd Sir Ddinbych**. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o gael sicrwydd gan swyddogion y Bwrdd Iechyd eu bod am ymgysylltu gyda'r Cyngor wrth

ddatblygu'r cyfleusterau newydd hyn er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi archwilio cynnig arall sy'n ceisio cyflenwi gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sef datblygu **Cyllidebau Cyfun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Bydd y pwyllgor yn parhau i fonitro'r holl faterion hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cyngor a'r Gwasanaeth Iechyd yn ddyledus i deuluoedd a gofalwyr am roi cymorth i breswylwyr sâl ac agored i niwed sy'n eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl, ac i gadw'n gydnerth cyhyd ag y gallant. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn lleihau'r galw a'r pwysau ariannol ar y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n bwysig felly bod gwasanaethau ar gael i gefnogi Gofalwyr yn eu gwaith ac i sicrhau eu bod yn cael rhywfaint o amser iddynt eu hunain i ymlacio a byw eu bywydau. Gyda'r nod o sicrhau bod y Cyngor yn gwneud darpariaethau digonol ar eu cyfer, bu'r Pwyllgor yn archwilio i ba raddau mae **Gofal ar gyfer Gofalwyr Ifanc yn Sir Ddinbych** ar gael, yn ogystal â **Darpariaeth Gofal Seibiannol ar gyfer Gofalwyr** ar draws y sir.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gael pwyllgor trosedd ac anrhefn dynodedig, a Phwyllgor Craffu Partneriaethau Sir Ddinbych yw'r pwyllgor trosedd ac anrhefn dynodedig. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno yn ystod y flwyddyn bu'r Pwyllgor yn archwilio **Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol 2017/18** Conwy a Sir Ddinbych a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer 2018/19. Roedd rhai o'r materion eraill yn ymwneud â diogelwch cymunedol a gafodd eu harchwilio'n fanwl yn ystod y flwyddyn yn cynnwys effeithiolrwydd y **Bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng (CCTV)** a sefydlwyd i gyflenwi gwasanaethau CCTV yn Rhuddlan, Y Rhyl a Phrestatyn ynghyd â chynigion i wella'r gwasanaeth mewn partneriaeth gyda Chyngor Gorllewin Sir Gaer a Chyngor Caer. Cyfrannodd y Pwyllgor hefyd at fanyleb y contract drafft i gyflenwi **Gwasanaethau Gorfodaeth Troseddau Amgylcheddol** yn y sir yn y dyfodol.

Gan fod Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE) yn ymestyn ar hyd ffin ddwyreiniol y sir, mae gan Sir Ddinbych gyfoeth o asedau naturiol, ac mae'n gartref i amrywiaeth eang o fywyd gwylt a chynefinoedd a warchodir. Mae'r ardal hon yn denu twristiaid o bob rhan o'r byd, sydd yn eu tro yn rhoi hwb i'r economi leol. O ganlyniad, mae angen rheoli'r ardaloedd hyn yn ofalus i sicrhau bod eu hecosystemau a'u cynefinoedd yn gynaliadwy yn y dyfodol. Er mwyn cael sicrwydd bod popeth posibl yn cael ei wneud i ddiogelu dyfodol yr ardaloedd hyn, o safbwynt ecolegol ac ariannol, bu'r Pwyllgor yn archwilio **Cynllun Rheoli'r AHNE** a'r ffordd roedd y Cynllun yn ategu cynlluniau'r awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r AHNE, a hefyd **holl waith presennol yr holl Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ar draws Cymru**.

Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu sefydlu fel cyrff statudol yn sgil cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y ddeddf hon yn ei thro yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddynodi un o'u pwyllgorau craffu ar gyfer craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol. Roedd cynghorau Conwy a Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd ar

gyfer y ddwy sir a, hyd at eleni, roedd gan bob cyngor ei bwyllgor dynodedig ei hun i graffu ar ei waith. Wrth i'r llywodraeth ganolog osod mwy o bwyslais a phwysau ar awdurdodau i gydweithio'n agosach er mwyn gwella canlyniadau i breswylwyr, cytunodd cynghorau Conwy a Sir Ddinbych i ystyried y posibilrwydd o sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ffurfiol er mwyn craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Gan mai Pwyllgor Craffu Partneriaethau Cyngor Sir Ddinbych oedd Pwyllgor Craffu dynodedig y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, cyfrannodd at y gwaith o ddatblygu'r **Cynigion ar gyfer Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol** a llunio cylch gorchwyl y pwyllgor. Cyflwynodd y cynigion a'r Cylch Gorchwyl drafft i'r Cyngor Sir eu hargymell a chymeradwywyd sefydlu'r Cyd-bwyllgor. Y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yw'r unig bwyllgor o'i fath yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, ac mae ymhlith un o'r cyntaf yng Nghymru. Cyfeirir at waith y Pwyllgor hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, ei agendau ac adroddiadau, ewch i wefan y Cyngor:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=268&LLL=1>

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cyng. Huw Williams (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-gadeirydd**)

Mae gan y Pwyllgor hwn rôl bwysig wrth graffu ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau lleol a bywydau bob dydd eu preswylwyr. Yn ystod 2018/19 gwnaeth y Pwyllgor barhau i fonitro effaith cyflwyno **Credyd Cynhwysol** ar breswylwyr lleol a gwasanaethau'r Cyngor, ynghyd ag effeithlonrwydd y mesurau a sefydlwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid, yn benodol Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a'r Adran Gwaith a Phensiynau, i liniaru effeithiau cyflwyno'r budd-dal newydd.

Archwiliwyd y cynigion ar gyfer **Gweithredu Cynnig Gofal Plant am Ddim Llywodraeth Cymru** yn y sir, ac yn sgil hyn gofynnodd y Pwyllgor am archwilio'r **Broses o Gomisiynu Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg**. Ymhlith y pynciau eraill yn ymwneud ag addysg neu'r ysgol a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn roedd **Effaith Cau Ysgol Rhewl** ar y disgyblion, staff a'r gymuned leol. Bu'r Pwyllgor hefyd yn archwilio'r **Polisi Dyledion Prydau Ysgol** diwygiedig a gwnaeth argymhellion ynglŷn â'r polisi. Ar ôl ystyried materion yn ymwneud ag elfennau anstatudol ar **Bolisi Cludiant Dysgwyr** y Cyngor, argymhellodd y Pwyllgor y dylid sefydlu gweithgor i edrych ar y polisi hwn yn fwy manwl. O ganlyniad, bydd adolygiad trylwyr o'r polisi hwn yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf i sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas yn y dyfodol.

Un mater y bydd cynghorwyr yn derbyn ymholiadau rheolaidd yn ei gylch yw diffyg cydymffurfio ag amodau cynllunio, felly aeth y Pwyllgor ati i archwilio **Perfformiad ac Effeithlonrwydd Swyddogaeth Gydymffurfio Cynllunio'r Cyngor**. Yn sgil hyn, argymhellodd y dylid llunio Siarter Cydymffurfio rhwng y Cyngor Sir a chynghorau dinas, tref a chymuned yr ardal i hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol er mwyn cefnogi gwaith cydymffurfio drwy atal ac ymyrryd yn fuan pan fydd achos honedig o dorri rheolau cynllunio.

Mae twristiaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at economi'r sir erioed, yn enwedig yn yr ardaloedd arfordirol. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd twf graddol ar draws y DU mewn gwyliau 'aros adref', gwyliau byr a gwyliau antur. Gyda'r nod o sicrhau bod Sir Ddinbych yn gwneud y gorau o'i hasedau naturiol er mwyn i'w

heconomi gael y budd gorau posibl o'r twf yn y mathau hyn o wyliau, bu'r Pwyllgor yn archwilio'r **Strategaeth Dwrstiaeth** a'r ffordd roedd yr awdurdod yn gweithio gyda chyrrff is-ranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol i hyrwyddo cynnig y sir i ddarpar ymwelwyr, a sut roedd yn cefnogi busnesau lleol i wneud y mwyaf o wariant twristiaid.

Yn ystod haf hir a phoeth 2018, cafodd miloedd o ymwelwyr eu denu i'r ardal, gan roi hwb i'r economi leol. Yn anffodus, pan oedd y rhan fwyaf o bobl yn mwynhau'r tywydd poeth, cafodd un rhan o'r sir ergyd fawr pan aeth Mynydd Llantysilio, ger Llangollen – ardal sy'n boblogaidd iawn ymhlith twristiaid – ar dân. Oherwydd y cynefin naturiol a'r amrywiaeth o fywyd gwyllt sy'n byw yno, mae'r mynydd wedi'i ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae hefyd yn rhan o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE). Bu'r tân yn llosgi ar y mynydd o ganol mis Gorffennaf tan ddiwedd mis Medi. Roedd y difrod a gafodd ei achosi i'r mynydd ei hun yn drychinebus, heb sôn am y canlyniadau i'r bobl hynny sy'n dibynnu arno am eu bywoliaeth. Hefyd, oherwydd y cyfyngiadau a roddwyd yn eu lle am gyfnod estynedig er mwyn ceisio diffodd y tân, cafodd hyn effaith ddifrifol ar breswylwyr a busnesau lleol. O ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r digwyddiad er mwyn ceisio sefydlu pa wersi fyddai'n gallu cael eu dysgu er mwyn lleihau'r perygl y gallai trychinebau tebyg ddigwydd yn y dyfodol, a phetai rhywbeth tebyg yn digwydd eto, beth fyddai'r ffordd orau o ymateb ac ymdrin â'r digwyddiad. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwiliad a'i ganfyddiadau i'w cael yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Gan fod y Cyngor yn bwriadu newid y ffordd mae'n ymdrin â gwastraff y cartref yn ystod y blynyddoedd nesaf, penderfynodd y Pwyllgor edrych ar y **Model Gwastraff ac Ailgylchu Arfaethedig Newydd**. Bydd yn parhau i fonitro a chynnig sylwadau ar y model arfaethedig newydd wrth iddo ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Mewn ymateb i bryderon yn y sir ynghylch amseroedd trosglwyddo cleifion o'r Gwasanaeth Ambiwylans i Adrannau Brys yr ysbytai, gwnaeth y Pwyllgor gyfarfod cynrychiolwyr o **Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Gwasanaeth Tu allan i Oriau** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod y pryderon ac ystyried cynigion ar gyfer lleihau amseroedd trosglwyddo, gan gynnwys sut gallai Gwasanaeth Tu allan i Oriau'r Meddygon Teulu leddfu'r pwysau ar Adrannau Brys os cânt eu defnyddio'n gywir.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â **Mynwentydd y Cyngor Sir**, gan gynnwys capasiti ym mynwentydd y sir yn y dyfodol, y drefn gynnal ar gyfer mynwentydd lawnt a chyflwynodd sylwadau ar y cynnydd arfaethedig yn ffioedd mynwentydd.

Cafodd Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor ei rhoi ar waith unwaith yn ystod 2018/19. O dan y drefn hon gall aelodau nad ydynt ar y Cabinet ofyn i'r pwyllgorau craffu adolygu penderfyniad gan y Cyngor o fewn amser penodol yn dilyn penderfyniad. O dan y weithdrefn Galw i Mewn, ystyriodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau benderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r **Ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr** yn y sir mewn cyfarfod ar 11 Hydref 2018 a gofynnodd i'r Pwyllgor ailystyried y lleoliad arfaethedig ar gyfer safleoedd preswyl a theithiol yn y sir. Ar ôl derbyn

sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu, penderfynodd y Cabinet gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol ynghylch lleoliad arfaethedig y ddau safle a symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad cyn-gynllunio ar y cynigion. Ar ddiwedd yr ymarferiad ymgynghori cyn-cynllunio, dadansoddodd y Pwyllgor yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cynigion a chyflwynodd argymhelliad ffurfiol i'r Cabinet na ddylid datblygu'r safleoedd preswyl a theithiol i Sipsiwn a Theithwyr yn agos at ei gilydd ac y dylid penderfynu ar leoliad y ddau safle fel rhan o broses barhaus y Cynllun Datblygu Lleol. Yn y pen draw, gwnaeth y Cabinet gymeradwyo y dylid gofyn am ganiatâd cynllunio i ddatblygu safle preswyl i sipsiwn a theithwyr yn Llanelwy, ond y dylid datblygu'r safle teithiol mewn man arall yn y sir.

I gael rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor, agendau ac adroddiadau, ewch i wefan y Cyngor:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=271&LLL=1>

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

Cyfeiriwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn at benderfyniad Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fodloni eu hymrwymiad statudol i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Wrth sefydlu'r Cyd-bwyllgor hwn cytunodd y ddau gyngor y byddai'n cynnwys 16 aelod, 8 o bob Cyngor, gan adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol eu hawdurdodau. Gwnaethant hefyd gymeradwyo ei gylch gorchwyl a chytuno y dylid penodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd, gyda'r swyddogion hyn yn cynrychioli awdurdod lleol gwahanol. Bydd swydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn newid bob yn ail, bob dwy flynedd, rhwng Conwy a Sir Ddinbych.

Cyn dechrau ar amserlen ffurfiol o gyfarfodydd, cynhaliwyd digwyddiad cyfarwyddo ar gyfer y Cyd-bwyllgor newydd ar ddechrau 2019, a chynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Cyd-bwyllgor ym mis Mai 2019. Yn y cyfarfod cyntaf, penodwyd y Cynghorydd Brian Cossey o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gadeirydd a'r Cynghorydd Graham Timms o Gyngor Sir Ddinbych yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2019/20 a 2020/21. Hefyd, penderfynwyd cynnal cyfarfodydd bob chwarter a chytunwyd ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2019/20 bydd gwaith y Cyd-bwyllgor o graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dechrau o ddifrif, gan ganolbwyntio yn benodol ar y cynnydd a wnaed gan Bwrdd hyd yma o ran cyflawni ei flaenoriaethau a sut mae sefydliadau partner y Bwrdd yn cyfrannu at waith y Bwrdd ac yn ystyried manteision y Bwrdd i'w sefydliadau.



Cyng. Brian Cossey (**Cadeirydd**)



Cyng. Graham Timms (**Is-gadeirydd**)

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyd-bwyllgor, ei agendau ac adroddiadau, ewch i wefan y Cyngor:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=540&LLL=1>

Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

Yn ystod 2018/19 mae'r Pwyllgorau Craffu wedi parhau i ddefnyddio'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gyflawni'r gwaith manwl o ddatblygu polisiau ar eu rhan. Mae'r grŵp gorchwyl a sefydlwyd beth amser yn ôl i archwilio modelau cyflenwi ar gyfer **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion** yn y dyfodol, wedi parhau â'r gwaith yn ystod y flwyddyn a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod 2019/20, wrth iddo geisio dod o hyd i atebion cyflenwi hirdymor, cynaliadwy a fydd yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol addas i'r pwrpas ar gyfer oedolion, ac a fydd yn cydymffurfio â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol a lles yr unigolyn.

Trafodwyd pryderon mewn perthynas â'r **Defnydd o Blastig** ac yn benodol plastig untro o dan Rybudd o Gynnig yn un o gyfarfodydd y Cyngor Sir. O ganlyniad, gofynnwyd i'r swyddogaeth Graffu ystyried defnydd y Cyngor o blastig a sut gallai leihau ei ddibyniaeth ar blastig mewn ffordd realistig. Penderfynwyd sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen at y diben hwn. Ar ôl ei sefydlu daeth yn amlwg yn fuan i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod defnydd yr awdurdod o blastig yn faes llawer mwy cymhleth na'r hyn a gafodd ei ragweld, ac o ganlyniad mae gwaith y grŵp hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r Grŵp yn gobeithio y bydd mewn sefyllfa i adrodd ar ei ganfyddiadau a chyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac yna gerbron y Cyngor Sir yn ystod 2019/20.

Tua diwedd y flwyddyn 2018/19, penderfynodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau sefydlu **Gweithgor** yn cynnwys aelodau etholedig ac aelodau a swyddogion addysg cyfetholedig o Adran Addysg y Cyngor, yr Adran Gludiant a gwasanaethau cysylltiedig eraill i ystyried **Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych**. Bydd y Gweithgor hwn yn canolbwyntio'n benodol ar gael eglurder ynghylch y gyllideb flynyddol ar gyfer cludo dysgwyr a'r gost o gludo disgyblion /myfyrwyr sy'n derbyn addysg anstatudol. Bydd hefyd yn asesu effaith a risgiau posibl dileu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n derbyn addysg anstatuol. Bydd y Grŵp hwn yn dechrau ar ei waith yn y flwyddyn academaidd newydd, gan ddechrau ym mis Medi 2019.

Ymchwiliad Craffu i'r Tân ar Fynydd Llantysilio

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, cafodd y tân ar Fynydd Llantysilio yn ystod yr haf 2018 effaith drychinebus ar gynefin y mynydd, ffermwyr, porwyr, preswylwyr a busnesau lleol, yn ogystal â'r ardal yn gyffredinol. Roedd aelodau etholedig yn awyddus i'r swyddogaeth Graffu gynnal ymchwiliad i'r tân a'i ganlyniadau tymor byr a thymor hir i'r ardal. Gofynnodd Cadeirydd ac Is-gadeiryddion y Grŵp Craffu i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gynnal yr ymchwiliad hwn.

Penderfynodd y Pwyllgor ystyried y tân a'r ymateb amlasiantaethol i'r digwyddiad, yn ogystal ag asesu effaith y tân ar yr ardal leol, yr amgylchedd a busnesau. Roedd Craffu o'r farn y byddai adolygiad trylwyr o'r agweddau hyn o gymorth i nodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn cynnig atebion ymarferol i wella ymatebion amlasiantaethol i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Roedd yr aelodau etholedig yn ymwybodol bod ardaloedd helaeth o rostir a choedwigaeth yn Sir Ddinbych ac felly roeddynt am sicrhau bod cynlluniau yn eu lle i drefnu sefydliadau partner yn effeithiol a'u rhoi ar waith mewn ffordd gydlynol wrth ymdrin â thanau gwyllt a digwyddiadau eraill yn y dyfodol. Roeddynt hefyd am ganfod a fyddai'n bosibl gwella arferion rheoli tir er mwyn helpu i atal tanau rhag lledu, neu er mwyn ynysu tanau gwyllt yn y dyfodol.

Gan fod nifer o gyrff a sefydliadau cyhoeddus, busnesau preifat mawr a bach, a phreswylwyr lleol wedi bod ynghlwm â'r tân, neu wedi cael eu heffeithio ganddo, cymerodd dipyn o amser i gasglu datganiadau a thystiolaeth er mwyn cynnal cyfarfod yr ymchwiliad ym Mhafiliwn Rhyngwladol Llangollen, 20 Mawrth 2019.

Gwahoddwyd gwahanol randdeiliaid, asiantaethau a sefydliadau a oedd ynghlwm â'r digwyddiad, y rhai a gafodd eu heffeithio ganddo, a'r rhai a oedd ynghlwm â rheoli a phori'r tir yn yr ardal, i ddod i'r cyfarfod ac annerch y cyfarfod. Esboniwyd wrth bawb a oedd yn bresennol mai diben y cyfarfod oedd derbyn a chyfnewid gwybodaeth a rhannu profiadau o ymdrin â'r tân a'i ganlyniadau. Drwy gydol y broses o gasglu gwybodaeth ac yn ystod y cyfarfod ei hun, pwysleisiwyd **nad** diben yr adolygiad oedd ceisio beio unrhyw unigolyn, gwasanaeth, sefydliad neu grŵp am y tân na'r ymateb iddo, ond yn hytrach, cael gwell dealltwriaeth o'r digwyddiad a dysgu oddi wrtho er mwyn helpu i wella'r ymateb a'r dull o reoli digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Yn y cyfarfod roedd cyfle i aelodau'r Pwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolwyr y gwahanol sefydliadau a oedd yn bresennol, a rhoddwyd cyfle i aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau hefyd i'r gwahanol sefydliadau a oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Os nad oedd yn bosibl rhoi ateb cynhwysfawr i unrhyw gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod, darparwyd ateb ysgrifenedig yn ddiweddarach.

Roedd y Pwyllgor yn hynod o falch o'r ffordd gwnaeth y cyhoedd gymryd rhan yn yr ymchwiliad. Cyflwynodd aelodau o'r cyhoedd dystiolaeth ffotograffig a fideo o'r tân a'r difrod a achoswyd. Derbyniwyd cofnodion dyddiol manwl gan nifer o unigolion y gwnaeth y tân effeithio'n ddifrifol ar eu bywydau, eiddo a'u bywoliaeth. Mae'r Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i'r holl unigolion a gymerodd ran yn yr ymchwiliad ac i'r asiantaethau, sefydliadau, cyrff preifat a chyhoeddus canlynol a gyfrannodd ac a gymerodd ran yn yr adolygiad mewn rhyw ffordd:

- Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Cymdeithas Porwyr Bwlch yr Oernant
- Perchnogion Ystad Llantysilio a'u hasiantwyr tir
- Dŵr Cymru /Welsh Water
- Cwmni Dŵr Hafren Dyfrdwy /Water Company
- Cyngor Cymunedol Llantysilio
- Cyngor Sir Ddinbych:
 - ❖ Gwasanaethau Cefn Gwlad
 - ❖ Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
 - ❖ Gwasanaeth Priffyrdd
 - ❖ Gwasanaeth Cyfathrebu a Marchnata

Roedd yr holl dystiolaeth a dderbyniwyd yn ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor wrth iddo geisio deall pryderon y cyhoedd ynghylch y tân a'i effaith.

Mae'r Pwyllgor bellach wedi cwblhau ei adolygiad o'r dystiolaeth ac wedi cyhoeddi ei adroddiad. Y prif ganlyniadau oedd:

- byddai rheolaeth y tân, yn benodol y cyfathrebu rhwng yr holl asiantaethau a'r cyhoedd, wedi elwa'n sylweddol petai Grŵp Cydlynu Tactegol – arfer hen sefydledig sy'n rhan o weithdrefnau cynllunio at argyfwng ar gyfer 'digwyddiadau difrifol' – wedi cael ei sefydlu
- byddai wedi bod o fudd petai Cynllun Tân Gwyllt Rhanbarthol wedi ei lunio er mwyn helpu'r gwaith cydlynu, cyfathrebu, a helpu sefydliadau i ddeall maint galluoedd ei gilydd a'r adnoddau oedd ar gael i ymateb i danau o'r fath
- roedd diffyg rheolaeth gadarn o'r tir ar y mynydd dros gyfnod maith o amser wedi cyfrannu at y cyfnod amser y llosgodd y tân. Y rheswm dros ddiffyg rheolaeth gadarn o'r tir oedd cyfuniad o newidiadau i bolisiau amaethyddol ac amgylcheddol a oedd wedi arwain at ostyngiad ym mhris defaid mynydd Cymreig a'r galw amdanynt, gan olygu nad yw'n economaidd i'w magu a'u ffermio. Os bydd y defaid brodorol hyn yn cael eu colli o rostiroedd ac ucheldiroedd mae perygl cynyddol y bydd mwy o gynefinoedd naturiol yn cael eu colli yn sgil tanau yn y dyfodol ac y daw'r rhostiroedd yn ardaloedd diffaith gan golli eu bioamrywiaeth iach a'u hecosystemau, ac y bydd dirywiad y preiddiau brodorol yn golygu bod ffordd o fyw ganrifoedd oed yn diflannu am byth.
- mae angen cynnal gweithgareddau rheolaidd ac effeithiol i gynnal y cynefin yn yr ucheldiroedd ac mae angen cydlynu'r gwaith hwn rhwng y gwahanol asiantaethau, tîffeddiannwyr preifat a phorwyr. Er mwyn meithrin a chynnal perthynas waith effeithio rhwng yr holl bartion er budd pawb sy'n byw yn ardaloedd y rhostiroedd hyn ac sy'n ymweld â nhw, gwnaeth y Pwyllgor argymhell y dylid creu swydd Swyddog Rheoli'r Ucheldir/Rhosdir i gynnal a chydlynu gwaith o'r fath yn y dyfodol

Ar sail ei ganfyddiadau mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddi ymateb ar unwaith fel rhan o'i hadolygiad o bolisiau amaethyddol ac amgylcheddol i sicrhau bod polisiau amaethyddol y dyfodol yn cael eu hanelu at

ddiogelu cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol ardaloedd ucheldir a rhostiroedd ar draws Cymru drwy sicrhau bod arferion ffermio a chynhyrchu defaid, elfennau hanfodol ar gyfer rheoli tir yn effeithiol a chynaliadwy yn yr ardaloedd hyn, yn derbyn cymorth i fod yn hyfyw yn economaidd. Mae hefyd wedi cyflwyno sylwadau i ofyn am gymorth ariannol er mwyn cefnogi'r gwaith brys sydd ei angen ar Fynydd Llantysilio i geisio adfer y difrod a achoswyd ac i adsefydlu'r cynefin.

O safbwynt y Pwyllgor, mae'n galonogol bod y tair brif asiantaeth gyhoeddus, Cyngor Sir Ddinbych, Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cytuno ag argymhellion y Pwyllgor. At hyn, roeddynt yn cytuno, mewn egwyddor, i sefydlu swydd Swyddog Rheoli'r Ucheldir/Rhosdir. Mae'n galonogol bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd rhwng y sefydliadau partner hyn i drafod sut gall y swydd allweddol hon gael ei hariannu a'i chynnal yn y dyfodol.

I weld adroddiad llawn y Cyngor sy'n cynnwys ei ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion, ewch i:

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynghlyn-ar-cyngor/Pwyllgor-Craffu-Cymunedau-adroddiad-terfynol-tan-Mynydd-Llantysilio.pdf>

Gwaith ychwanegol

Yn unol â'r arfer dros y blynyddoedd diwethaf, mae aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi parhau â'u swyddogaethau craffu y tu hwnt i faes ffurfiol y cyfarfodydd pwyllgor. Maent wedi cynrychioli eu pwyllgorau ar y gwahanol Bwyllgorau Herio Gwasanaethau a Grŵp Buddsoddi Strategol y Cyngor, ac ati. O dan yr eitem busnes sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, mae cynrychiolwyr wedi adrodd yn ôl i'r pwyllgorau ar drafodaethau, argymhellion a phenderfyniadau'r cyfarfodydd hynny.

Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru

Mae Craffu wedi parhau â'r arfer o dderbyn adroddiadau thematig gan Swyddfa Archwilio Cymru ac ystyried a yw gwasanaethau'r Cyngor yn addasu'n ddigonol i fynd i'r afael ag argymhellion cenedlaethol. Yn ystod 2018/19 rhoddodd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol gan Swyddfa Archwilio Cymru:

- ❖ [Gwasanaethau Rheoli Gwastraff yng Nghymru](#)
- ❖ [Adroddiadau ar Wasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig](#)
- ❖ [Darparu Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Leol: Trosglwyddo Asedau Cymunedol](#)

Yn ogystal â'r uchod cyhoeddodd Archwilydd Cenedlaethol Cymru adroddiad ar Graffu yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwn, '[Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?](#)¹', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 yn dilyn yr adroddiad '[Craffu Da? Cwestiwn Da!](#)²', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014. Roedd adroddiad 2014 yn adroddiad cenedlaethol, ond roedd adroddiad 2018 wedi'i deilwra at swyddogaeth graffu pob awdurdod lleol ac arferion lleol.

Ar gyfer yr astudiaeth 'addas ar gyfer y dyfodol?' cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad thematig o graffu ar draws Cymru. Prif ddiben yr adolygiad yw archwilio effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith pwyllgorau craffu. Edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar y ffordd roedd cynghorau yn trefnu eu gwaith o graffu ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus a pha mor barod oedd cynghorau i ymateb i heriau'r dyfodol. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys y pwysau ar arian cyhoeddus a'r symudiad tuag at weithio mewn ffordd fwy ranbarthol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau eraill.

Daeth adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod swyddogaeth graffu Cyngor Sir Ddinbych yn ymateb yn dda i heriau cyfredol, fodd bynnag gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar gynnydd yn y dyfodol, ac roedd lle hefyd i aelodau cabinet gyfrannu'n fwy gweithredol at drafodaethau craffu. Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad hwn oherwydd:

- a. bod y Cyngor yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer craffu, ond gallai prinder capasiti i gefnogi craffu amharu ar allu'r swyddogaeth graffu i ymdrin â heriau yn y dyfodol;
- b. roedd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wedi'i chynllunio'n dda, yn mabwysiadu ymagwedd gytbwys at graffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ac yn datblygu dulliau mwy effeithiol o gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn gwaith craffu; a

¹ Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?' – Cyngor Sir Ddinbych (Mehefin 2018):

http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/denbighshire_council_overview_scrutiny_welsh.pdf

² Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Craffu Da? Cwestiwn Da' (Mai 2014):

https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/WAO_Scrutiny_Report_Welsh_2014.pdf

c. bod y Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y swyddogaeth graffu, ond bod lle i aelodau cabinet fod â rhan fwy gweithredol mewn trafodaethau.

Er na wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gynnig unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Cyngor, awgrymodd ddau 'Gynnig ar gyfer Gwella', sef:

1. *'Y dylai'r Cyngor adolygu pa mor ddigonol yw'r trefniadau cefnogi, o ran maint a natur y gefnogaeth y gallai fod ar bwylgorau trosolwg a chraffu ei hangen.'*

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod Sir Ddinbych yn rhoi diffiniad clir o'r swyddogaeth Graffu ac yn defnyddio nifer o ddulliau gwahanol i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau. Roedd y swyddogion a'r aelodau yn ystyried bod Craffu yn effeithiol a bod ganddo rôl werthfawr yn nhrefniadau llywodraethiant y Cyngor.

Rhoddodd Swyddfa Archwilio Cymru yr esboniad canlynol o'r cyfeiriad at 'ba mor ddigonol yw'r trefniadau cefnogi':

'Nid yw eto'n glir sut y bydd newid y drefn ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn effeithio ar gapsiti cyfredol y Cyngor i gefnogi craffu. Ond bydd asesiad o'r angen am gefnogaeth yn cael ei gynnwys yn rhan o'r papur opsiynau ar gyfer craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi asesu lefel y gefnogaeth graffu sydd ei hangen wrth bennu ei gyllideb. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd heriau craffu rhanbarthol yn y dyfodol, a chynlluniau'r Cyngor i gynyddu ffocws y swyddogaeth graffu ar ymgysylltu â'r cyhoedd, yn rhoi mwy o bwysau ar y capasiti cefnogi presennol wrth symud ymlaen. Mae angen i'r Cyngor felly ystyried a yw maint a natur y gefnogaeth graffu sy'n bodoli eisoes yn ddigonol i wynebu heriau'r dyfodol.'

Mae trefniadau ffurfiol ar gyfer Craffu ar y cyd ar Fwrdd Gwasanaethau Conwy a Sir Ddinbych bellach yn eu lle, ynghyd â chefnogaeth staff cefnogol presennol y swyddogaeth Graffu yn Sir Ddinbych a Chonwy. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r ffaith bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi, neu eu cynllunio, fwyfwy ar lefel ranbarthol neu is-ranbarthol. Mae angen i'r holl awdurdodau lleol roi sylw i gymhlethdod y gwaith o graffu ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn rhanbarthol gan nifer o sefydliadau.

2. *'Dylai aelodau Cabinet gyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ac ymateb i gwestiynau oddi wrth aelodau pwyllgor trosolwg a chraffu ynghylch polisïau a phenderfyniadau'r Cyngor, yn unol â chanllawiau statudol.'*

Cynhaliwyd yr adolygiad ar ddechrau tymor y Cyngor newydd, yn dilyn etholiadau mis Mai 2017. Trwy wneud hyn nod Swyddfa Archwilio Cymru oedd helpu i wreiddio gwaith Craffu effeithiol gan gynghorwyr ar ddechrau'r cylch etholiadol newydd, a fydd yn rhedeg tan fis Mai 2022.

Gyda gweinyddiaeth newydd a rhai aelodau Cabinet newydd, gwelodd Swyddfa Archwilio Cymru ar y pryd fod deiliaid portffolio profiadol yn cymryd rôl fwy gweithgar

wrth gyflwyno gwybodaeth ac ymateb i her, ac roedd lle i fabwysiadu'r dull hwn
mewn ffordd fwy cyson gan yr holl aelodau Cabinet.

Sut gall preswylwyr gymryd rhan yn y broses Craffu?

A fyddech chi'n hoffi i'r pwyllgorau craffu edrych ar fater penodol?

Gallwch godi'r mater i'w ystyried gan un o bwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych drwy lenwi'r Ffurflen Gais Craffu (trosodd). Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu yn cyfarfod yn achlysurol i benderfynu sut i ddyrannu gwaith y pwyllgorau craffu a byddant yn ystyried a ddylai unrhyw fater gael ei ystyried yn fanwl gan un o'r pwyllgorau, neu a ddylid gweithredu mewn ffordd arall. Gall hyn amrywio o gyfeirio mater i'r gwasanaeth sy'n gyfrifol, i graffu'n llawn ar y mater gan un o'r pwyllgorau craffu, neu hyd yn oed sefydlu 'grŵp gorchwyl a gorffen' arbenigol i archwilio ac adrodd ar fater penodol.

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod un o'r pwyllgorau craffu?

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu Cyngor Sir Ddinbych ar agor i'r cyhoedd fel arfer, ac mae preswylwyr Sir Ddinbych a'r cyhoedd yn cael eu hannog i fynychu. Mae rhestr o gyfarfodydd pwyllgorau craffu'r dyfodol a'r materion fydd yn cael eu trafod ar gael ar y dudalen 'Craffu' ar wefan y Cyngor.

Os hoffech chi gymryd rhan yn y drafodaeth ar fater penodol bydd angen i chi ofyn am ganiatâd Cadeirydd y pwyllgor (gweler y manylion isod).

Yn achlysurol, bydd rhai eitemau sy'n cael eu trafod gan bwyllgor yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol na ellir ei thrafod yn y fforwm cyhoeddus arferol. Bydd unrhyw eitemau o'r fath (y cyfeirir atynt fel 'Rhan Dau (II)') wedi'u nodi'n glir pan fydd papurau'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi, a bydd Cadeirydd y pwyllgor sy'n trafod eitem 'Rhan II' yn ei gwneud hi'n glir y dylai'r cyfarfod barhau heb bresenoldeb y wasg a'r cyhoedd er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

A fyddech chi'n hoffi siarad mewn pwyllgor ar fater sy'n cael ei drafod?

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd pwyllgorau craffu ond bydd yn rhaid gofyn am ganiatâd y Cadeirydd os ydynt am siarad neu wneud sylwadau mewn cyfarfod pwyllgor. Os hoffech chi gyflwyno tystiolaeth gerbron pwyllgor, neu annerch aelodau ar sail eich profiad mewn perthynas â phwnc dan sylw, cysylltwch â'r Cydlynnydd Craffu ymlaen llaw os gwelwch yn dda, er mwyn trefnu hyn ac er mwyn dosbarthu unrhyw waith papur i aelodau'r pwyllgor.

Yn achlysurol, gall y pwyllgorau craffu 'gyf-ethol' unigolyn gyda phrofiad neu arbenigedd penodol i ddod yn aelod dros dro o'r pwyllgor neu ofyn iddynt gyfrannu at ymchwiliad fel tyst arbenigol.

Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau pwyllgorau craffu Sir Ddinbych

Gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n cael ei drafod yng nghyfarfod pob pwyllgor craffu, yn ogystal ag unrhyw gyfarfod cyhoeddus arall y Cyngor, drwy ymweld â'r dudalen 'cyfarfodydd' ar wefan y Cyngor. Mae 'rhaglen waith' ddiweddaraf pob un o'r pwyllgorau craffu ar gael, ynghyd â'r papurau perthnasol ar gyfer pob cyfarfod, a bydd yr

agenda sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer pob cyfarfod ar gael 5 - 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod fel arfer.

Mae cofnodion y cyfarfodydd craffu blaenorol a chofnod o'r penderfyniadau hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Gallwch gael rhagor o gyngor neu wybodaeth drwy gysylltu â'r Cydlynnydd Craffu, Rhian Evans rhian.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712554) neu'r Swyddog Democrataidd, Karen Evans, karen.a.evans@sirddinbych.gov.uk (01824 712575).

FFURFLEN GAIS CRAFFU

A oes unrhyw fater yr hoffech chi i'r pwyllgorau craffu gymryd golwg arno?

Rhowch ddisgrifiad byr o'r pwnc yr hoffech i un o'r Pwyllgorau Craffu ei ystyried gan nodi pam rydych yn credu y dylai gael ei ystyried

A fyddech chi'n hoffi mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu?

BYDDWN/NA FYDDWN

Byddai'n ddefnyddiol petach yn gallu rhoi'r manylion isod i ni er mwyn i ni ymateb i'ch cais

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

E-bost:

Rhif ffôn:

DYCHWELWCH Y FFURFLEN HON AT: Y CYDLYNYDD CRAFFU, GWASANAETHAU CYFREITHIOL A DEMOCRATAIDD, NEUADD Y SIR, FFORDD WYNNSTAY, RHUTHUN LL15 1YN neu e-bostiwch y ffurflen at rhian.evans@sirddinbych.gov.uk